




Y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

► Swyddog Cangen:
Bethan Wyn
b.davies@uwtsd.ac.uk

► Dilynwch hi ar Facebook:
Bethan Wyn Cangen - Pcydds





Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

HAFAN ASTUDIO YMAELODI ADNODDAU Y COLEG YMCHWIL AMDANOM NI



ENGLISH

YMAELODI

YMAELODI FEL MYFYRIWR NEU FYFYRIWR OL-RADD

Ymaelodi â'r Coleg > Myfyrwyr >

YMAELODI

Gwybodaeth Bersonol

Enw Cyntaf Enwau Canol Cyfenw

Dyddiad Geni

1 Ionawr 2001

Eich Cyfeiriad E-bost Prifysgol/Coleg

E-bost Prifysgol/Coleg

All adrodd E-bost Prifysgol/Coleg

E-bost Personol

E-bost Personol



Y TCA



Y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg

Berfau Berau Berau!




Nod

- Edrych yn fanylach ar ferfau – dysgu sut i'w defnyddio'n gywir yn eu ffurfiau cwmpasog a chryno.
- Ffurfio'r negyddol.
- Ffurfio'r gofynnol.
- Berfau amhersonol
- Adolygu.

Adolygu - Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng berf a berfenw?

Bwyta



Berfenw



Bwytais



Berf

Bwyta=BERFENW

Dim ond dangos gweithred a wna
'bwyta'.



Berfenw = enw ar y weithred

Bwytais = BERF



Mae 'bwytais' hefyd yn dangos **gweithred**, ond mae hefyd yn cynnig ychydig mwy o **fanylion** trwy'r **terfyniad 'ais'**:

Mae berfau felly'n dweud 3 pheth wrthym ni:

1. beth sy'n cael ei wneud BETH?



2. pwy sy'n ei wneud PWY?



3. pryd mae'n cael ei wneud PRYD?

ddoe

Adolygu ... Berf neu ferfenw?



- anghofio
- bydd
- cofrestru
- credaf
- dylent
- ewch
- gorflino

- ▶ gwariais
- ▶ gwelais
- ▶ gwrando
- ▶ gwybod
- ▶ gwyddai
- ▶ marcio
- ▶ mynd

- ▶ penderfynodd
- ▶ rhedeg
- ▶ rhedwn ni
- ▶ talu
- ▶ ymlacio
- ▶ ysgrifennaf



Beth sy'n cael ei wneud?

Rhan gyntaf y ferf sydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni ...

CANAIS

CAN(U)+AIS

PENDERFYNODD

PENDERFYN(U) +ODD

DARLLENON

DARLLEN + ON

Pwy sy'n ei wneud?

Y terfyniad fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni
...


Mae chwe 'pherson' gwahanol i'r ferf ...

person 1af unigol	FI
2il berson unigol	TI
3ydd person unigol	EF / HI / JOHN
person 1af lluosog	NI
2il berson lluosog	CHI
3ydd person lluosog	NHW

Pryd mae'n cael ei wneud?

Y terfyniad fydd yn rhoi'r wybodaeth yma i ni hefyd.

Mae nifer o amseroedd gwahanol i'r ferf, yn cynnwys ...





Berf neu ferfenw? Pa un ddylwn i ddefnyddio?

Byddwn yn defnyddio berfau neu ferfenwau
mewn brawddeg mewn un o ddwy ffordd:

naill ai

➡ yn eu ffurfiau cwmpasog. *Mae Huw wedi ennill*

neu

➡ yn eu ffurfiau cryno *Enillodd Huw*

Sut ydw i'n defnyddio BERFENW?

Mae'n rhaid defnyddio ffurf ar y ferf 'bod' gyda berfenw a dyma sy'n rhoi ffurf GWMPASOG y ferf i ni, sef y ffordd hir o ddweud rhywbeth. Yn aml y ffordd hir (CWMPASOG) fyddwn ni'n ei ddefnyddio ar lafar wrth siarad e.e.

berfenw

Mae e wedi gweld y ffilm.

ffurf ar y ferf 'BOD'



Beth yw ffurf gwmpasog?

- Ffurf gwmpasog yw'r ffordd hir o ddweud rhywbeth
- Mae'n rhaid defnyddio ffurf ar y ferf 'BOD' gyda berfenw
- Mae gwahanol amser i'r ferf 'BOD' yn cynnwys – presennol, dyfodol, gorffennol ac amherffaith

Cyfieithwch rhain gan ddefnyddio'r ffurfiau cwmpasog...

I walked to school every day when I was a child.

She has won the Eisteddfod chair once.

I will write that essay tonight.

They have marked all the books.

Roeddwn i'n cerdded i'r ysgol bob dydd pan oeddwn yn blentyn.

Mae hi wedi ennill cadair yr Eisteddfod unwaith.

Bydda i'n ysgrifennu'r traethawd heno.

Maen nhw wedi marcio'r llyfrau i gyd.

Edrychwch ar y geiriau mewn print coch a glas – beth ydych chi'n sylwi?

Beth ydych chi'n sylwi?

Gyda'r ffurfiau cwmpasog, byddwn ni'n defnyddio BERFENW bob tro.

Fydd gwrthrych y ferf (y person/peth sy'n 'dioddef' y weithred) DDIM YN TREIGLO gyda'r ffurfiau cwmpasog.

Mae hi wedi **ennill** **cadair** yr Eisteddfod unwaith.

Enillodd hi **gadair** yr Eisteddfod unwaith.



Beth yw berf gryno?

BERF GRYNO yw'r ffordd fyrrach o ddweud rhywbeth.
Ystyriwch y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae Siôn wedi darllen llyfr.

Mae ystyr rhain yn union yr un fath. **Cwmpasog** yw'r cyntaf. **Cryno** yw'r ail.

Darllenodd Siôn lyfr.



Beth yw'r gwahaniaeth rhwng berf gryno a berf gwmpasog?

Rydym yn defnyddio y ffurfiau cwmpasog mewn sefyllfaoedd ble rydym am i'r iaith fod yn fwy anffurfiol, yn enwedig ar lafar.

Mae'r berfau cryno yn fwy ffurfiol, ac felly, maen nhw'n gweddu i sefyllfaoedd ffurfiol yn enwedig rhai ffurfiau ysgrifennu e.e traethodau ac aseiniadau Prifysgol.



Amserau'r
Ferf



Y Presennol/Dyfodol

Defnyddir y ffurf hon i ddisgrifio:

1) Rhywbeth sy'n digwydd ar y pryd.

e.e. *Gwelaf i'r haul yn yr awyr, mae'n braf.*

2) Rhywbeth fydd yn digwydd yn y dyfodol.

e.e. *Rhedaf yn y ras yfory.*

3) Rhywbeth sydd fel arfer yn digwydd.

e.e. *Edrychaf ar y teledu bob bore.*



Terfyniadau'r Presennol:

...af

...i

...a [...iff/...ith]

...wn

...wch

...ant

...ir (amhersonol)



Presennol

➤ ...af

➤ ...i

➤ ...a[....iff(g)/....ith(b)]

➤ ...wn

➤ ...wch

➤ ...an

➤ gweithia*af i*

➤ gweithi*di*

➤ gweithia *ef/hi*

➤ gweithiwn *ni*

➤ gweithiwch *chi*

➤ gweithian *nhw*

Gweithgaredd

Defnyddiwch y daflen berfenwau i ymarfer rhedeg y ferf.

Er enghraifft: **Prynu**

*Prynaf i, pryni di, pryniff e, prynith hi,
prynwn ni, prynwch chi, prynan nhw.*



Ymarfer ...

Cyfieithwch gan ddefnyddio'r ffurfiau cryno ...

- | | |
|--------------------|-------------------|
| ➡ I'll wait | • Arhosaf i |
| ➡ I'll keep | • Cadwaf i |
| ➡ They'll walk | • Cerddan nhw |
| ➡ She'll show | • Dangosiff hi |
| ➡ You'll read (ti) | • Darlleni di |
| ➡ You'll arrive | • Cyrhaeddwch chi |



Y Gorffennol Cryno:

Defnyddir yr amser hwn i ddangos rhywbeth sydd wedi ei wneud yn y gorffennol.

...ais i


...aist ti

...odd e/hi/Sion

...on ni

...och chi

...on nhw



Gweithgaredd

Defnyddiwch y daflen berfenwau i ymarfer rhedeg y ferf.

Er enghraifft: **Rhedeg**

*Rhedais i, rhedaist ti, rhedodd e, rhedodd hi,
rhedon ni, rhedoch chi, rhedon nhw.*



Presennol – Gorffennol – Dyfodol

Y Ferfenw	Presennol	Gorffennol	Dyfodol
chwarae	chwaraeaf	chwaraeais	bydda i yn chwarae
siarad	siaradaf	siaradais	bydda i yn siarad
darllen	darllenaf	darllenaais	bydda i yn darllen



Yr Amherffraith

Defnyddir yr amser hwn i ddangos rhywbeth oedd yn digwydd yn y gorffennol *dros gyfnod o amser*.

Nid gweithgaredd a ddigwyddodd unwaith a gorffen sydd yma ond rhywbeth ddigwyddodd fwy nac unwaith, ac nid oes sicrwydd pryd y daeth i ben.

Dyna pam y galwn y weithred yn amherffraith.



Yr Amherffraith:

...wn

...it / ...et

...ai

...em

...ech

...ent

Terfyniadau'r berfau cryno rheolaidd

Presennol/ Dyfodol	Gorffennol	Amherffaith
Pryn – AF I Pryn – I DI Pryn – A/IFF/ITH E/HI Pryn – WN NI Pryn – WCH CHI Pryn – AN NHW	Pryn – AIS I Pryn – AIST TI Pryn – ODD E/HI Pryn – OM NI Pryn – OCH CHI Pryn – ON NHW	Pryn – WN I Pryn – ET TI Pryn – AI E/HI Pryn – EM NI Pryn – ECH CHI Pryn – EN NHW
Pryn - IR	Pryn - WYD	Pryn - ID

Mae'n RHAID dysgu'r terfyniadau yma

Peidiwch
â phoeni
am y
rhain
nawr –
dewn ni
nôl atyn
nhw ...




Ffurio'r gofynnol

I ffurfio cwestiwn, rhaid i ni ychwnaegu **A** o flaen y ferf. Mae'r **A** yn achosi treigladau meddal. ee **A** ddarlleni di?

Gallwn ni hepgor yr A, ond bydd y treigladau yn aros ...

Ddarlleni di?



Ffurio'r gofynnol

Bydd P, T, C, B, D, G, Ll, M, Rh yn treiglo'n feddal.

Er enghraifft:

Pryniff e'r bwyd? > **B**ryniff e'r bwyd?

Gweli di'r ferch? > **W**eli di'r ferch?

Tasg: Meddyliwch am **bum** cwestiwn y gallech chi eu defnyddio yn y dosbarth, sy'n dechrau gyda berf – ceisiwch ddefnyddio amserau gwahanol y ferf.

Ffurio'r negyddol

Fel arfer, os ydy'r frawddeg yn negyddol, mae angen treiglo'r ferf.

Clywais i swŷn > **Ch**lywais i **ddim** swŷn.

Os yw'r ferf yn cychwyn â'r llythrennau **C, P** neu **T** mae angen **treiglo'n llaes**. Os yw'r ferf yn cychwyn â'r llythrennau **B, D, G, Ll, Rh** neu **M** mae angen **treiglo'n feddal**.

e.e

Ches i ddim **Dd**ywedais i ddim

Welais i ddim **F**eddyliais i ddim

Ffurio'r negyddol

Neu, mae modd i chi ychwanegu “**ni**” ar ddechrau'r frawddeg ond bydd dal angen treiglo'r ferf.

Clywais i swŷn > Ni chlywais i swŷn

Os yw'r ferf yn cychwyn â'r llythrennau **C, P** neu **T** mae angen **treiglo'n llaes**. Os yw'r ferf yn cychwyn â'r llythrennau **B, D, G, Ll, Rh** neu **M** mae angen **treiglo'n feddal**.

e.e

Ces i > Ni ches i Dywedais i > Ni ddywedais

Gwelais i > Ni welais i Meddyliais i > Ni feddyliais.

Adolygu

Cadarnhaol	Cwestiwn	Negyddol
Darllenes i/Darllenaais i	Ddarllenes i?/Ddarllenaais i?/ A ddarllenaais i?	Ddarllenes/Ddarllenaais i ddim/ Ni ddarllenaais i
Darllenest ti /Darllenaist ti	Ddarllenest ti?/Ddarllenaist ti?/ A ddarllenaist ti?	Ddarllenest/Ddarllenaist ti ddim/ Ni ddarllenaist ti
Darllenodd e/o/ Darllenodd ef	Ddarllenodd e/o?/ A ddarllenodd ef?	Ddarllenodd e/o ddim/ Ni ddarllenodd ef
Darllenodd hi	Ddarllenodd hi?/ A ddarllenodd hi?	Ddarllenodd hi ddim/ Ni ddarllenodd hi
Darllenon ni / Darllenasom ni	Ddarllenon ni?/ A ddarllenasom ni?	Ddarllenon ni ddim/ Ni ddarllenasom ni
Darllenoich chi/ Darllenasoch chi	Ddarllenoich chi?/ A ddarllenasoch chi?	Ddarllenoich chi ddim/ Ni ddarllenasoch chi
Darllenon nhw / Darllenasant hwy	Ddarllenon nhw?/ A ddarllenasant hwy?	Ddarllenon nhw ddim/ Ni ddarllenasant hwy



Trowch y canlynol i'r negyddol ...

- Gwela i di 'fory.
- Cymerwn ni'r tocynnau.
- Pryniff hi'r gwerslyfr.
- Canwn ni heno.
- Bwyti di swper.
- Rhoddwn ni arian i'r gronfa
- Dangosiff e i chi.



Gwrthrych berf

Gwelodd Sian blismon

↑ ↑ ↑

berf goddrych gwrthrych

Gwrthrych y ferf sy'n ateb 'BETH?' i'r ferf. Gwelodd yw'r **ferf**, Sian yw'r **goddrych**, yr un sy'n gwneud y weithred a plismon yw'r **gwrthrych**, sef yr hyn sy'n ateb 'BETH?' i'r ferf.



Rheol treiglo

Mae gwrthrych berf bersonol yn treiglo'n feddal:

Ysgrifennodd y prifathro **l**ythyr.
Cafodd y bachgen **dd**amwain.
Gwelodd Carys **dd**drama.
Coginiodd fy mam **g**inio blasus.
Planais **f**lodau yn yr ardd



COFIWCH ...

Bydd gwrthrych berfau cryno cadarnhaol yn
treiglo'n feddal.

Darllenaf i llyfr.

Prynwn ni **b**edwar tocyn.

Cyrhaeddwn ni **g**opa'r Wyddfa cyn 10 o'r gloch.

OND

Ddarllenaf i ddim llyfr

Phrynwn ni ddim pedwar tocyn



Treiglo'r gwrthrych ...

Cywirwch y gwallau, lle bo angen ...

- Ysgrifennaf i llythyr atoch chi i gadarnhau'r trefniadau.
- Tafliff e pêl fawr goch.
- Trefnwn ni cyngerdd i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol.
- Gyrri di car mawr crand.
- Prynan nhw popeth o siopau crand.
- Derbyniwn ni graddau gwych yn yr arholiadau eleni.



Ymarfer canfod y
gwrthrych a'r
goddrych

Berf / Berfenw?

Ysgrifennwch frawddeg yn cynnwys y geiriau hyn.

gwisgo

gwisgai

tanlinellwch

arsylwais

dweud

darllena

ymhelaethu

dadansodda

llwyddem

cerddan

llwydddaist

ysgrifennu

gwylio

cyfeiria

gwrandawaf

arsylwi

canaf



Gorchmynion

Beth ydy gorchmynion?

Pryd byddwn ni'n eu defnyddio nhw?

Beth sy'n rhaid i ni gofio?



Gorchmynion cadarnhaol

- ➡ Rydym yn defnyddio'r gorchmynion unigol i siarad ag un plentyn a'r rhai lluosog pan rydym yn siarad â'r grŵp.
- ➡ Mae'r unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **-a** ar ddiwedd bonyn y ferf, e.e.
Rheda! Cerdda!
- ➡ Fel arfer, mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **-wch** ar ddiwedd bonyn y ferf, e.e.
Rhedwch! Sgipiwch!



Gorchmynion

Rheda'n gyflym.

Rhedwch yn gyflym.

Gwranda'n ofalus.

Gwrandewch yn ofalus.

Gwisga dy got.

Gwisgwch eich cotiau.

Sa'n llonydd. / Sefa'n
llonydd.

Sefwch yn llonydd.



Mynd a dod

Dere i withio ar y
cyfrifiadur.

Dewch i weithio ar y
cyfrifiadur.

Cer allan i'r
iard/buarth.

Ewch allan i'r
iard/buarth.

Cer i nôl dy fag.

Ewch i nôl eich bagiau.

Gwnewch res.



PAID!

- **Gorchmynion negyddol**

- Mae'r gorchymyn unigol yn cael ei ffurfio drwy roi **Paid â** o flaen y ferf ac mae'r lluosog yn cael ei ffurfio drwy roi **Peidiwch â** o flaen y ferf. Mae hyn yn achosi treigladau llawer, e.e.

Paid â cheredded! Peidiwch â phoeni!

- Dydyn ni ddim yn defnyddio'r treigladau hwn bob tro ar lafar.



PAID/PEIDIWCH

Paid â **ch**weryla.

Peidiwch â **ch**weryla.

Paid â bod yn
ddigywilydd.


Peidiwch â bod yn
ddigywilydd.

Paid â **ch**erdded yn
y mwd.

Peidiwch â **ch**erdded yn
y mwd.

Paid â **meiddio**.

Peidiwch â **meiddio**.



Crëwch orchmynion

1. Eich cotiau
2. Peidiwch!
3. Ewch
4. Gwisgwch
5. Darllenwch
6. Eich chwiorydd
7. Eich teuluoedd
8. Canwch
9. Eich llyfrau
10. Eich ffedogau

1. Dy frawd
2. Rheda
3. Dy fag
4. Dy gadair
5. Dere yma
6. Edrycha
7. Cerdda
8. Dy ddillad
9. Gwranda
10. Dy bêl



Unigol/Iluosog

1. Peidiwch ag agor y drws
2. Peidiwch â rhedeg yn gyflym
3. Peidiwch â chanu yn dawel
4. Peidiwch â chau'r ffenest
5. Peidiwch â gwisgo eich esgidiau
6. Paid â cherdded fel eliffant
7. Paid â sefyll yn llonydd
8. Paid â dod i mewn
9. Paid â bwyta'r tatws
10. Paid â gwneud siâp seren



Rhaid

Rhaid i **mi** **f**ynd
Rhaid i **ti** **w**rando
Rhaid iddo **fe** **d**dysgu
Rhaid iddi **hi** **g**ysgu
Rhaid i **ni** **f**wyta
Rhaid i **chi** **d**darllen
Rhaid iddyn **nhw** **f**wynhau
*Rhaid i **Nia** a **Huw** **g**ofio



Gorchymynion i'w hosgoi...

eisteddwch i lawr

sefwch i fyny

llenwch y tabl mewn

torrwch allan

ysgrifennwch
i lawr

croeswch e allan

dwylo fyny

*dewch lan i'r
blaen*

trowch y golau
bant

trowch y cyfrifiadur
'mlaen



Beth sy'n bod ar y canlynol:

Ysgrifenna baragraff yn trafod y dasg. Beth ydy eich barn chi?

Eisteddwch yn dawel ac agora dy lyfr.

Paid â siarad. Byddwch yn dawel.

Gweithiwch gyda dy bartner.



Gweithgareddau i ymarfer
gorchmynion



Aseiniad 1

- Canllawiau ar Moodle.
- I'w gyflwyno erbyn y 3ydd o Ragfyr 2018.

Eleri Jenkins
Rhagoriaith- ystafell G8.
Canolfan Dylan Thomas
Abertawe
SA1 1RR

Eleri Jenkins
Rhagoriaith- ystafell HG122
PCYDDS
Campws Caerfyrddin
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EP.



Arsylwadau

- ➡ Dewch i ddweud os ydych chi eisiau cael eich arsylwi cyn y Nadolig!